***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Croes Bennawd: Erthygl 23. (See end of Document for details)*

# YR ATODLEN

## Y CONFENSIWN, Y PROTOCOLAU, Y DATGANIADAU A'R NEILLTUADAU

### RHAN 1

### RHAN I O'R CONFENSIWN

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Atod. Rhn. 1 cymhwyswyd (2.11.2020 at ddibenion penodedig, 1.9.2021 at ddibenion penodedig, 1.1.2022 at ddibenion penodedig, 1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), **aau. 7(2)(a)**, 100(3); O.S. 2020/1182, **rhl. 3(2)(b)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, **4**, 6, 7 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/938, **ergl. 2**); O.S. 2021/1243, **ergl. 3** (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 2**); O.S. 2021/1244, **ergl. 3** (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 3**); O.S. 2021/1245, erglau. 3, **4** (ynghyd ag ergl. 1(4)); O.S. 2022/891, **ergl. 3** (ynghyd ag erglau. 4-25); O.S. 2022/892, erglau. 2, **3** (ynghyd ag erglau. 4-18); O.S. 2022/893, **ergl. 4**; O.S. 2022/894, **ergl. 3**; O.S. 2022/895, erglau. 3, **4**; O.S. 2022/896, **ergl. 3** (ynghyd ag erglau. 1(7), 4-22); O.S. 2022/897, **ergl. 3** (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21); O.S. 2022/898, erglau. 2, **3**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. Rhn. 1 mewn grym ar 16.5.2011, gweler **a. 11**

*Erthygl 23*

1 Mae Partïon Gwladwriaethau yn cydnabod y dylai plentyn sydd ag anabledd meddyliol neu gorfforol fwynhau bywyd llawn a gweddus, mewn amodau sy'n sicrhau urddas, yn hybu hunanddibyniaeth ac yn hwyluso cyfranogiad gweithredol y plentyn yn y gymuned.

2 Mae Partïon Gwladwriaethau yn cydnabod hawl y plentyn anabl i gael gofal arbennig a rhaid iddynt hyrwyddo'r broses, yn ddarostyngedig i'r adnoddau sydd ar gael, o estyn i'r plentyn cymwys a'r rhai sy'n gyfrifol dros ofalu amdano, y cymorth y mae cais yn cael ei wneud amdano ac sy'n briodol i gyflwr y plentyn ac i amgylchiadau'r rhieni neu'r personau eraill sy'n gofalu am y plentyn a rhaid iddynt sicrhau y caiff y cymorth hwnnw ei estyn iddo.

3 Gan gydnabod anghenion arbennig plentyn anabl, rhaid i gymorth a estynnir yn unol â pharagraff 2 o'r erthygl bresennol gael ei roi yn ddi-dâl, pryd bynnag y bo'n bosibl, gan ystyried adnoddau ariannol y rhieni neu'r personau eraill sy'n gofalu am y plentyn, a rhaid iddo fod wedi ei gynllunio i sicrhau bod y plentyn anabl yn cael mynediad effeithiol at addysg, hyfforddiant, gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau adsefydlu, cyfleoedd i baratoi ar gyfer cyflogaeth a chyfleoedd hamdden, a'i fod yn eu cael, a hynny mewn modd sy'n ei gwneud hi'n hwylus i'r plentyn integreiddio i'r graddau llawnaf posibl â'r gymdeithas ac i ddatblygu fel unigolyn, gan gynnwys datblygu yn ddiwylliannol ac yn ysbrydol.

4 Rhaid i Bartïon Gwladwriaethau hybu, yn ysbryd cydweithrediad rhyngwladol, y broses o gyfnewid gwybodaeth briodol ym maes gofal iechyd ataliol ac ym maes triniaeth feddygol, seicolegol a gweithredol plant anabl, gan gynnwys lledaenu gwybodaeth ynghylch dulliau adsefydlu, addysg a gwasanaethau galwedigaethol a

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Croes Bennawd: Erthygl 23. (See end of Document for details)*

mynediad at yr wybodaeth honno, gan anelu at alluogi Partïon Gwladwriaethau i wella eu galluoedd a'u sgiliau ac ehangu eu profiad yn y meysydd hyn. Yn hyn o beth, rhaid rhoi sylw penodol i anghenion gwledydd sy'n datblygu.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Croes Bennawd: Erthygl 23.